YR ATODLEN

Symudiadau a ganiateir

# RHAN 5

## Dofednod wedi'u brechu i'w cigydda

**10.**—(1) Os bodlonir yr amodau yn is-baragraff (2), symudiad unrhyw ddofednod wedi'u brechu i'w cigydda—

(a) o fangre sydd mewn parth brechu i fangre arall sydd mewn parth brechu; neu

(b) o fangre sydd mewn parth brechu, neu sy'n destun hysbysiad brechu, i fangre sydd y tu allan i barth brechu neu nad yw'n destun hysbysiad brechu.

(2) Dyma'r amodau—

(a) mae'r dofednod wedi'u brechu â brechlyn a bennwyd yn y datganiad neu hysbysiad brechu brys o dan reoliad 6(1);

(b) mae'r adar wedi cael eu harchwilio'n glinigol a'u profi cyn eu llwytho gan arolygydd milfeddygol nad yw wedi'u gosod o dan unrhyw gyfyngiadau;

(c) mae'r adar wedi cael eu harchwilio'n glinigol gan arolygydd milfeddygol cyn pen 48 o oriau cyn eu llwytho ac os yw'n briodol mae unrhyw adar dangos clwy yn y fangre hefyd wedi cael eu harchwilio gan arolygydd meddygol;

(ch) maent i'w hanfon yn uniongyrchol i ladd-dy dynodedig.